



AD CLERUM

Oddi wrth yr Esgob

Chwefror 2018

Oddi wrth yr Esgob

Nid yw Cristionogaeth yn ffydd fewnsyllgar iawn. Mae'r efengyl yn datgan ein bod yn derbyn maddeuant drwy farwolaeth Iesu, gan ein herio i fyw drwy rym yr ysbryd y mae Duw wedi ei roi i ni yn realiti'r byd a grewyd ac a gynhelir ganddo.

Yn ystod y Garawys, fodd bynnag, fe'n hatgoffir fod Iesu, cyn cychwyn ar y weinidogaeth y'i galwyd iddi, wedi ei yrru gan yr Ysbryd Glân i'r anialwch i wynebu'r temtasiynau a ddeuai i'w ran wrth iddo ymroi i gyflawni ewyllys Duw.

Daw temtasiynau i'n rhan ninnau, ac, wrth geisio dyfalu sut i'w gwrthsefyll, rhaid yn gyntaf, ddatrys y dirgelwch – beth sy'n peri i ni fel unigolion ildio i'w cyfaredd? Mae pawb ohonom yn wahanol, a bydd y naill yn dal ei dir yn rhwydd yn wyneb y pechodau sy'n mynnu trechu'r llall. Mae adnabod ein hunain yn hanfodol.

Dyw edrych i fyw llygad ein hunain ddim yn rhinwedd Gristionogol, ond yn nhymor y Garawys, da o beth yw gwneud hynny er mwyn canfod a dysgu cydweithredu â gwaith yr Ysbryd yn y galon, sydd â'r nod o'n gwneud yn debycach i Grist. “Mae pawb ohonom, o syllu ar ogoniant yr Arglwydd, gydag wynebau heb eu gorchuddio, yn cael ein trawsnewid i'r un ddelwedd honno, o'r naill radd o ogoninat i'r llall”. (II Cor 3:18).

Nid rhyw broses benchwiban sy'n digwydd ar hap yw tebygu i Grist. Fe'n hanogir gan Bedr i “wneud pob ymdrech i rymuso ein ffydd â rhinwedd, ein rhinwedd â gwybodaeth, ein gwybodaeth â hunanddisgyblaeth, ein hunanddisgyblaeth â dyfalbarhad, ein dyfalbarhad â duwioldeb, ein duwioldeb â brawdgarwch, a'n brawdgarwch â chariad. Oherwydd os yw'r rhinweddau hyn gennyh yn helaeth, byddant yn peri nad diog na diffryth fyddwch yn eich adnabyddiaeth o'n Harglwydd Iesu Grist”. (2 Pedr 1:5-8).

Fe'n gelwir ninnau, yn ddyddiol, i gydweithredu â'r Ysbryd Glân drwy sicrhau fod ein geiriau a'n gweithredoedd yn adlewyrchu delwedd Crist, a'r Garawys yw'r adeg a neilltuwyd gan yr Eglwys er mwyn i ni ddwys-ystyried ein bywydau.

Fe ddaeth hi'n llai ffasiynol i amddifadu ein hunain o ryw foethau yn ystod y Garawys, ond y mae ymwrthod â phethau sy'n gynhenid dda er mwyn ymarfer hunanymwadiad yn rhan annatod o ddisgyblaeth yr Eglwys ers tro byd, ac yn rhywbeth a gymerir o ddifri gan aelodau'r Eglwys Uniongred.

Nid mater o fagu penderfyniad mo hyn, ond dysgu deall ein hunain a'r hyn sy'n ein symbylu, a'r modd y ceisiwn ddygymod â'n hunain. Mae amddifadu'n hunain o'r hyn sy'n rhoi cysur i ni yn gyfle i ni ddysgu sugno nerth oddiwrth yr Ysbryd er mwyn i ni ddibynnu fwyfwy ar Dduw mewn sefyllfaoedd anodd ac annisgwyl. Mae'r Garawys i'r Cristion yn rhyw fath o fynd i'r gampfa. Boed i ni fanteisio ar y cyfle hwn i ymarfer yn ddwys, rhag bod yn aneffeithiol neu'n anffrwythlon yng ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

Bendith arnoch,

Cynhadledd i Glerigiaid 2018: Beth nesaf?

Ar y dydd DGP(CMD) Chwef 1af, rhoddwyd tri chyflwyniad, un ar gyfer pob archddiaconiaeth, a chyflwynodd Mrs Lindy Wainwright anerchiad ynglyn â datblygu'n gymuned ymarfer. Mae proses sefydlu AGL yn golygu fod y sawl a fydd yn rhan o'r Tîm Gweinidogaethu yn dod ynghyd ac yn penderfynu sut i drefnu eu cydweithio yn y dyfodol.

Bydd y Parchedig Marianne Osborne neu rywun o'r Tîm Trawsnewidiad yn trefnu cyfarfodydd gogyfer â'r AGL yn ystod y cyfnod cyn sefydlu'r AGL yn ffurfiol, ond, waeth beth am sefyllfa eich AGL ar hyn o bryd, mae'r daith tuag at statws cyflawn yn cychwyn yn awr.

Gofynnir i bob tîm ymgynnull er mwyn llunio cyflwyniad am eu AGL ac er mwyn ei ddangos i eraill yn ystod y Gynhadledd Glerigol. Ni fwriedir iddo fod yn gyflwyniad ynglyn â'r eglwysi, yr adeiladau neu beth bynnag, ond yn hytrach ynglŷn â'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd sy'n gefndir i'r cymunedau eglwysig, yr heriau a'r cyfleoedd i bobl yr ardal, a'r posibilïadau, o ganlyniad, ar gyfer cenhadu a gwasanaethu.

O ran bod yn ddarn o waith, bydd yn gyfle i nodi'r hyn sy'n gyfarwydd i chi eisoes ac efallai i ddysgu pethau newydd, megis yr adnoddau sy'n ffynonellau gwybodaeth am bobl. Tasg yw hon sy'n galw am gydweithio ar draws ffiniau plwyf, a chan mai dyma fydd patrwm y dyfodol, bydd hynny o fudd yn sicr. Fe ddysgwch wrth fynd ati eich hunain, hefyd o weld dull pobl eraill o weithio.

Cewch 10 munud i gyflwyno eich syniadau, a rhwydd hynt i chwi wneud hynny fel y mynnoch. Croeso i David Hammond Williams, ein swyddog cyfathrebu, eich helpu chi.

Oni wnaethoch hyn eisoes, bydd angen i chi drefnu cyfarfod i wthio'r cwch i'r dŵr; bydd y Gynhadledd Glerigol yma chwap.

Bydd cyfleoedd yn ystod y gynhadledd i weddio ac addoli; cawn arweiniad ysgrythurol gan dri o'n clerigiaid ein hunain, a bydd Dr Anne Richards o Gyngor Cenhadu a Materion Cyhoeddus Eglwys Loegr yn trafod cenhadu cyfoes ac efengylu. Amcan y cyfan fydd ymroi o ddifri i ystyried siars y Corff Llywodraethol, sef y dylid canolbwyntio ar genhadu ac efengylu, a phwyso a mesur yn ddwys yr hyn sydd o dan ein traed, fel petai.

Ardaloedd Gweinidogaethu Lleol: y Diweddaraf

Erbyn hyn dechreuwyd ar y broses o ffurfio ein AGL newydd a chrynhoi'r tîmau a fydd yn gyfrifol am y gwaith gweinidogaethu a chenhadu ynddynt. Bydd hyn yn dipyn o her, yn sicr. Golyga weithio drwy'r trwch, bawb ohonom, a hynny mewn ffyrdd newydd a fydd yn groes i'r graen. Mae cydweithio mewn tîmau yn rhywbeth dieithr iawn i lawer o glerigiaid, a dymuniad llyegwyr yw cael eu hoffeiriad plwyf eu hunain.

Pam cychwyn ar y siwrnau hon o newid? Does bosib ein bod yn amheus o'r ffordd draddodiadol o fod yn eglwys; does bosib chwaith ein bod yn gweld mai diffwyth ein hen ddull o weithio. Na, yn hytrach, rhaid sicrhau na fyddwn yn cyflogi mwy o nifer o glerigiaid nag y gellir eu fforddio, a bod y rhai cyflogedig hynny yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, gan weithio mewn modd hwylus a chynaliadwy.

Ni ellir darparu, mwyach, y nifer clerigiaid cyflogedig sydd ei angen anrom er mwyn llanw pob bywoliaeth fel cynt. Gellid cau eglwysi ond cwtogi enbyd a dirywiad fyddai'r canlyniad. Yn hytrach, mae angen i ni dyfu a datblygu dull newydd, cynaliadwy, iach a theg, o ddarparu gweinidogaeth ar gyfer a thrwy ein heglwysi, a hynny'n lleol iawn.

Eisoes arbrofwyd yn llwyddiannus â dulliau newydd o ddarparu gweinidogaeth yn lleol, a hoffwn dalu teyrnged i'n GHG(L) a'r rheiny, boed weinidogion trwyddedig neu beidio, sy'n weinidogion Ffocal. 'Mestynnwyd ffiniau patrymau traddodiadol o weinidogaethu, a mae hyn yn destun bywyd

newydd a gobraith. Amser a ddengys beth ddaw o'r dull newydd hwn o gydweithio mewn AGL. Mae'n bwysig cofio mai darparu adnoddau mewn modd cyffelyb yw amcan y dulliau newydd o weithredu, a hynny ar gyfer cymunedau lleol o Gristionogion yn ymarfer eu ffydd. Nid sôn am newid er mwyn newid, a dim arall, yr ydym, ond newid er mwyn parhau fel yr Eglwys ledled trefi a phentrefi ein Hesgobaeth.

Er tawelu meddyliau:

Mae i bob AGL rif sy'n dynodi'r isafswm nifer clergïaidd cyflogedig a bennir ar gyfer yr ardal honno. Os oes yna fwy o glergïaidd cyflogedig yn yr AGL na'r nifer a bennwyd, ni fwriedir diswyddo unrhyw un.

Gwerthfawrogir clergïaidd sydd wedi ymddeol, a gellir dal i ofyn iddynt arwain gwasanaethau, ond mae'n bwysig fod tîmau AGL yn trefnu rota o wasanaethau rheolaidd nad oes raid galw ar unrhyw berson y tu fas i'r tîm gweinidogaethol i'w harwain. Felly, rhaid peidio trefnu mwy o wasanaethau ar y Sul nag y caniateir i bob gweinidog eu harwain. Nid yw rota sy'n galw am glergïaidd ymddeoledig i'w weithredu, yn beth iach na chynaliadwy, na chwaith yn deg o ran clergïaidd ymddeoledig.

Does gen i ddim cynlluniau ar y gweill i gau eglwysi. Mae yna rai adeiladau nad ydynt gynaliadwy bellach, o ddiffyg unrhyw addolwyr, neu o dreuliau cynnal a chadw trwm, neu efallai fod costau trwsio yn amhosib o uchel; os daw cais i'r perwyl, yna fe gytunaf gau'r adeilad, ond dydw i ddim yn bwriadu cau unrhyw un o'n hadeiladau eglwysig yn groes i ddymuniad yr AGL, onibai fod diogelwch y cyhoedd yn y fantol.

Yn olaf...

Mae bod yn rhan o Esgobaeth Tyddewi yn golygu bod yn rhan o gymuned Gristionogol sy'n ddyledus, o ran ei bywyd, i weddi, cenhadaeth a gweinidogaeth ein nawddsant. Mae Iesu Grist yr un ddoe, heddiw ac am byth, ac fe all ef sicrhau tŵf a meithriniad yr eglwys drwon ni yn yr oes hon, fel y gwnaeth o gyfnod Dewi Sant hyd heddiw. Bu i gymuned Dewi Sant ymroi gant y cant i Dduw, o ran gweddi, litwrgi, gwasanaeth ac efengylu. Her ymroddiad cyffelyb sy'n ein wynebu ninnau, yn ogystal. Wrth i ni nesau at y garreg filltir flynyddol sy'n nodi marwolaeth Dewi Sant, boed i ni ofyn i Dduw ein dysgu i fyw a gweddi yn y fath fodd fel y bo i'n cenhedlaeth ninnau hefyd weld geni'r eglwys eto am y 1500 mlynedd nesaf..